**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **30 MEHEFIN 2015** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2015** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2015 hyd at 31 Mawrth 2015.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod 1 Chwefror 2015 hyd at 31 Mawrth 2015:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 24 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 4 |
| Adolygiadau Grant | 4 |
| Archwiliadau Dilyniant | 5 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2015, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| TGCH mewn Ysgolion Uwchradd | Addysg | Adnoddau | B | Atodiad 1 |
| System Swyddi – diogelwch a chywirdeb | Corfforaethol | | C | Atodiad 2 |
| Ffonau Symudol | Corfforaethol | | B | Atodiad 3 |
| Trefniadau Dysgu a Datblygu | Corfforaethol | | B | Atodiad 4 |
| Iechyd a Diogelwch – Gweithio'n Unig | Corfforaethol | | C | Atodiad 5 |
| Protocol ar Gyswllt Aelod – Swyddog | Corfforaethol | | B | Atodiad 6 |
| Llywodraethu Corfforaethol – Gweithredu Penderfyniadau Pwyllgor | Corfforaethol | | A | Atodiad 7 |
| System Dyledwyr – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Ariannol | B | Atodiad 8 |
| System Taliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Ariannol | B | Atodiad 9 |
| Cysoni Banc – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Cyfrifeg | B | Atodiad 10 |
| System Gyflogau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 11 |
| Cyflogau – Swyddi Lluosog | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 12 |
| Cronfa Bensiwn Gwynedd – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | A | Atodiad 13 |
| System Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 14 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| System Treth Cyngor – Adolygiad o’r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 15 |
| System Trethi Busnes – Adolygiad o’r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 16 |
| TG – Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | Cyllid | Technoleg Gwybodaeth | C | Atodiad 17 |
| Cydgyfeiriant Rhwydwaith | Cyllid | Technoleg Gwybodaeth | D/B | Atodiad 18 |
| Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd | Economi a Chymuned | Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau | C | Atodiad 19 |
| Galw Gwynedd | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cyswllt Cwsmer | A | Atodiad 20 |
| Asedau Preswylwyr Cartrefi | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 21 |
| Cydweithio gyda’r Bwrdd Iechyd | Plant a Chefnogi Teuluoedd | Plant a Theuluoedd | B | Atodiad 22 |
| Gwasanaethau Plant – Comisiynu Gofal | Plant a Chefnogi Teuluoedd | Plant a Theuluoedd | C | Atodiad 23 |
| Gorfodaeth Parcio | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | B | Atodiad 24 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn “A” — Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn.

Barn “B” — Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn “C” — Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn “CH” — Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **Defnydd o Dechnoleg - Gwerth am Arian** (Corfforaethol). Bwriad yr archwiliad oedd darganfod os yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau ac yn cyflawni gwerth am arian mewn perthynas â'r holl feddalwedd, systemau a thrwyddedau sydd yn ei berchnogaeth ac os oes trefniadau mewn lle er mwyn adnabod cyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd. Gwelwyd bod y potensial o ddiffyg gwerth am arian mewn perthynas â meddalwedd a thrwyddedau eisoes wedi ei adnabod gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a bod camau positif wedi eu cymryd, megis llunio cofrestr. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd y gofrestr yn gyflawn - mae'n angenrheidiol i'r gofrestr fod yn gyflawn a chywir a bod y swyddogion perthnasol yn cymryd rhan lawn yn y broses.

- **Cofrestrau Asedion Sefydlog - Cerbydau** (Cyllid). Cynhaliwyd yr adolygiad o ganlyniad i fater a amlygwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 25 medi 2014. Bwriad yr archwiliad oedd adolygu'r manylion a gofnodwyd ar y gofrestr asedau mewn perthynas â cherbydau a chymharu'r wybodaeth yma i ffynonellau eraill megis basdata a gedwir gan y Rheolwr Fflyd a data yr Uned Yswiriant. Darganfuwyd bod amrywiadau sylweddol yn bodoli yn eu cynnwys. O ganlyniad i'r adolygiad, mae trefniadau wedi eu sefydlu i sicrhau y bydd y manylion a'r wybodaeth o fewn y dair ffynhonnell yn cytuno.

- **Systemau Gwybodaeth Gwasanaethau Cymdeithasol** (Oedolion, Iechyd a Llesiant). Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer y trosglwyddiad i'r system wybodaeth newydd, a fydd yn gwarchod buddion y Cyngor drwy sicrhau bod rheolaeth dros gofnodion y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Cyngor Gwynedd yn un o wyth Awdurdod sydd ynghlwm â'r gwaith o gydweithio i redeg prosiect o archebu system gwybodaeth newydd erbyn 2016. Nid yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhagweld bydd pryniant na gweithrediad ar unrhyw system newydd tan o leiaf 2016, ac felly mae'r Uned Archwilio Mewnol o'r farn y dylid ail-ymweld â'r prosiect hwn yn 2016.

- **Depos a Gweithdai - Rheolaeth Stoc** (Priffyrdd a Bwrdeistrefol). Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau rheoli stoc yng ngweithdai a depos y Cyngor yn briodol, neu fod trefniadau mewn lle i'w gwella yn dilyn cyhoeddiad adroddiad EDGE ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r Gwasanaeth Fflyd wedi ymrwymo i gyflawni'r holl argymhellion sydd yn yr adroddiad a bydd hyn yn cael effaith mawr ar drefniadau trafnidiaeth ar draws y Cyngor. Bydd Archwilio Mewnol yn ail-ymweld â'r trefniadau rheoli stoc yn y dyfodol ond yn y cyfamser bydd Archwilio Mewnol wrth law i roi sicrwydd bod y newidiadau yn lliniaru'r risgiau a adnabuwyd.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Darpariaeth Ôl-16 mewn ysgolion (*Addysg*)
- Grant Cymunedau'n Gyntaf a Theuluoedd *(Strategol a Gwella)*
- Grant Refeniw Dechrau'n Deg *(Plant a Chefnogi Teuluoedd)*
- Grant Llwyddo'n Lleol - Trefniadau Cau Lawr Prosiect (Economi a Chymuned

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Trwyddedau Meddalwedd Ysgolion | Addysg | Adnoddau | **Anfoddhaol** |
| Trefniadau Hawlio Goramser | Corfforaethol | | **Derbyniol** |
| Cofrestr Diogelwch Staff | Corfforaethol | | **Derbyniol** |
| Cymunedau'n Gyntaf – y Rhaglen Newydd | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | **Derbyniol** |
| Parciau Gwledig | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.
**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.
**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.
**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2015**
Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch
Taliadau Uniongyrchol

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2015**
Gwasanaethau Plant – Comisiynu Gofal

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2015**
System Swyddi – Diogelwch a Chywirdeb
TG – Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2015**
Iechyd Diogelwch – Gweithio'n Unig
Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd

## 2.4 Archwiliadau Ymatebol

2.4.1 **Cartref Cefn Rodyn** – Cynhaliwyd archwiliad ar drefniadau ariannol Cartref Preswyl Cefn Rodyn i sicrhau eu bod yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor. Darganfuwyd bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Gwnaethpwyd argymhellion er mwyn cryfhau'r rheolaethau ac mae archwiliad lawn wedi ei gynllunio yng nghynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2015-16.

2.4.2 **Digwyddiad Diogelwch Gwybodaeth, Swyddfa Penrallt** - Bwriad yr archwiliad oedd ymchwilio i mewn i'r digwyddiadau wnaeth arwain at ddarganfyddiad ffeiliau mewn sgip yn Swyddfeydd Penrallt. Bu i hyn ddigwydd yn ystod cyfnod ble roedd gwasanaethau yn symud swyddfeydd. Credir bod diffyg ymwybyddiaeth o'r trefniadau priodol ar gyfer symud swyddfa a'r canllawiau ar gyfer "Symud a Clirio" wedi arwain at y digwyddiad. Mae archwiliad "Llywodraethu Gwybodaeth - Deddf Diogelu Data" yn gynwysedig yng nghynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2015-16.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2015 i 31 Mawrth 2015, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

Atodiad 1

**TGCH MEWN YSGOLION UWCHRADD**
**Addysg**

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau priodol ar gyfer rheoli technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn ysgolion uwchradd, er mwyn lliniaru risgiau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.

Cwmpas yr Archwiliad

Dewiswyd sampl o ysgolion uwchradd yng Ngwynedd i'w harchwilio ar gyfer yr archwiliad.

Ymwelwyd â'r ysgolion i gynnal archwiliadau i sicrhau fod trefniadau priodol ar gyfer rheoli technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn yr ysgolion.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod corff llywodraethol rhai o'r ysgolion heb fabwysiadau'r polisïau TG a ddarparwyd gan Cynnal a bod angen iddynt eu mabwysiadu. Mae angen newid hawliau Technegwyr yr ysgolion a swyddogion Cynnal i lefel is na 'Domain Administrator' ar y system gyfrifiadurol yr ysgolion. Nid oedd polisïau trwyddedau meddalwedd manwl na rhestrau meddalwedd cyfredol yn bodoli ym mhob un o'r ysgolion archwiliwyd. Serch hynny, ar y cyfan gwelwyd fod diogelwch priodol yn bodoli ar gyfer rheoli technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn yr ysgolion.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau rheoli TGCh mewn Ysgolion Uwchradd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid gwneud trefniadau i'r Corff Llywodraethol yn yr ysgolion a adnabuwyd i fabwysiadu'r polisi diogelwch a systemau TGCh yn ogystal â pholisi rheolaeth cyfrineiriau a ddarparwyd gan Cynnal.**
- **Dylid parhau gyda'r gwaith o newid hawliau Technegwyr ysgolion a swyddogion Cynnal i lefel is na 'Domain Administrator' gan sicrhau mai Rheolwr Systemau TGCh yr ysgol yn unig sydd â mynediad 'Domain Administrator' i'r system.**
- **Dylid sicrhau fod staff yn newid eu cyfrineiriau SIMS.net a FMS yn unol â pholisïau rheolaeth cyfrineiriau sydd wedi eu mabwysiadu gan y Corff Llywodraethol.**
- **Dylai'r Technegwyr ystyried anablu mynediad staff yr ysgol at systemau cyfrifiadurol lle'n bosibl, er mwyn sicrhau fod staff yn cydymffurfio â pholisi rheolaeth cyfrineiriau'r ysgol - gellir gwneud hyn drwy orfodi staff i newid eu cyfrineiriau ar adegau penodol.**
- **Byddai'n ymarfer da be byddai ysgolion yn prynu pinnau cof (pen drives) a'u hamgryptio a'u dosbarthu i'r athrawon.**
- **Byddai'n ymarfer da be byddai holl athrawon ac os yn berthnasol staff eraill yr ysgol yn arwyddo datganiad i gadarnhau eu bod yn derbyn mai eu cyfrifoldeb hwy yw diogelu unrhyw ddata personol a gludir o'r ysgol ac y gwneir hynny drwy ddefnyddio dyfais sydd wedi ei hamgryptio ac wedi'i gwarchod gan gyfrinair. Gellir hysbysu'r athrawon/staff fel rhan o'r datganiad a arwyddir, bod cyfrifoldeb arnynt hwy i fynd i nôl y ddyfais sydd wedi ei hamgryptio gan y Technegydd/staff gweinyddol.**
- **Dylid sicrhau fod polisi trwyddedau meddalwedd priodol yn bodoli ym mhob ysgol ac yn manylu'n briodol ar wahanol feysydd.**
- **Dylid sicrhau fod gan pob ysgol restr meddalwedd cyfredol sy'n cynnwys manylion priodol am y meddalwedd sydd ar gyfrifiaduron yr ysgol.**

**SYSTEM SWYDDI**
**Corfforaethol**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd gwirio manylion System Swyddi Gwynedd i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol a chywir gan gynnwys bod strwythur y gadwyn reoli'n gywir.

Cwmpas yr Archwiliad

Cynhaliwyd profion realaeth ar drawdsoriad o wasanaethau ac adrannau ble roedd yn wybyddus bod newidiadau strwythur wedi cymryd lle yn ddiweddar, yn ogystal â gwirio manylion y gwasanaethau hynny a drosglwyddwyd i adrannau eraill o ganlyniad i ail-strwythuro ar lefel adrannol. Hefyd, cynhaliwyd trafodaethau ar ddatblygiad y system gyda swyddogion perthnasol o'r Adran Adnoddau Dynol.

Prif Ddarganfyddiadau

Datblygwyd System Swyddi Gwynedd fel sail ar gyfer cynorthwyo gyda datrysiadau arfaethedig yn sgil adolygiadau Ffordd Gwynedd, e.e. hunanwasanaeth ar gyfer cyflwyno costau teithio a chynhaliaeth. Fodd bynnag, ar gyfer y gwasanaethau a ddetholwyd i'w gwirio, darganfuwyd bod gwendidau sylweddol yn bodoli, yn arbennig o safbwynt cywirdeb y fframwaith reoli hierarchaidd. Mae sawl ffactor yn cyfrannu at y methiant yma, gan gynnwys diffyg ymwybyddiaeth am y system o safbwynt rheolwyr, diffyg hyfforddiant priodol ar gyfer swyddogion y Gwasanaeth Cefnogol, a diffyg ymwybyddiaeth rheolwyr/uwch reolwyr o'r angen i gyflwyno unrhyw newidiadau mewn strwythur ac atebolrwydd at y gwasanaethau perthnasol o fewn yr Adran Adnoddau Dynol.

Gwelwyd bod manylion y system gyflogau yn cael eu cymharu â'r manylion yn y system swyddi yn ddyddiol (dros nos) - caiff y data ei gydweddu ar sail rhif swydd. Rhedwyd adroddiad "Swyddi Coll" a oedd yn manylu ar weithwyr oedd ar gyflogres ond nad oedd cofnod ohonynt yn y system swyddi. Darganfuwyd nad oedd ymchwiliadau yn cael eu cynnal i'r achosion hyn a gall methiant i wirio'r manylion arwain at y posibilrwydd bod gweithiwr ffug (*ghost employee*) ar y gyflogres. Mae manylion System Swyddi Gwynedd hefyd yn bwydo i'r Ddolen Dysgu, ac felly golyga nad yw manylion y basdata hynny yn gywir ychwaith ac felly gyda goblygiadau i'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Nid oedd y system ychwaith yn cofnodi'n gywir yr oriau cytundebol ar gyfer gweithwyr oedd ar gytundeb dros dro ar bob achlysur. Mae'r mater hwn eisoes wedi ei adnabod ac yn derbyn sylw.

Mae'n bwysig cydnabod bod llawer o waith ac ymdrech wedi ei roi at ddatblygu System Swyddi Gwynedd ac nid oes unrhyw feirniadaeth o safbwynt gweithrediad y system ond yn hytrach y manylion a fewnbynnwyd i'r basdata. Os yw'r system am fod yn sail i ddatrysiadau mae'n hanfodol fod y data yn gywir, a bod trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer ymdopi gyda'r gweithwyr hynny sydd gyda swyddi lluosog.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngweinyddiaeth a chywirdeb System Swyddi Gwynedd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod manylion System Swyddi Gwynedd yn gywir - dylid ystyried ymweld â Thimau Rheoli Adrannol, a/neu wasanaethau i sicrhau bod manylion deiliaid swyddi yn gywir yn ogystal â'r gadwyn reoli.**
- **Dylid ystyried sefydlu amserlen cynnal cyflwyniadau, cyflwyno hyfforddiant ynghyd â'r goblygiadau hysbysu newidiadau strwythurol ar gyfer rheolwyr.**
- **Dylid sicrhau bod gweithrediad diymdroi ar yr adroddiadau "Swyddi Coll".**
- **Dylid sicrhau bod trefniadau eglur ar gyfer adrodd i'r Gwasanaeth Cefnogol os yw swydd yn cael ei dileu o'r sefydliad a beth yw'r ysgol reoli yn sgil hynny.**

# FFONAU SYMUDOL
## Corfforaethol

Cefndir

Cyhoeddwyd adroddiad archwiliad mewnol ar ffonau symudol yn 2010-11. Amlygwyd yn yr archwiliad nad oedd rheolaeth ddigonol ar y trefniadau ar gyfer archebu a rheoli'r defnydd o ffonau symudol. Gwelwyd yn ogystal bod rheolwyr wedi awdurdodi ceisiadau am archebion ffônau symudol ac uwchraddio ffonau heb ystyried yr anghenion busnes dros hynny. Darganfuwyd hefyd bod nifer o swyddogion y Cyngor wedi archebu mwy nag un teclyn ffôn megis PDA, ffôn symudol a iPhone a bod hynny yn sgil derbyn cymeradwyaeth eu rheolwyr.

Mynegwyd yn yr adroddiad: *"Mae'r archwilwyr o'r farn bod arbedion ariannol arwyddocaol ar gael petai adolygiad trylwyr yn cael ei gynnal o'r ffonau symudol sydd mewn bodolaeth i asesu os oes eu gwir angen a thrwy gymryd camau priodol i drafod gyda'r cwmni am y posibilrwydd o dderbyn biliau yn electronig a fydd yn lleihau amser prosesu, diddymu camgymeriadau ac yn rhyddhau adnoddau staff."* Argymhellwyd y "*Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr a chynhwysol i'r trefniadau mewn perthynas â ffonau symudol a chyfarpar technoleg gwybodaeth i sicrhau bod y gyfundrefn yn gweithredu yn y modd mwyaf effeithlon a chyson a bod unrhyw arbedion – boed hynny yn adnoddau amser enu ariannol – yn cael eu hadnabod a'u gwireddu*."

Er bod gan y Cyngor gytundeb fframwaith cenedlaethol, bu i'r gwariant gynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd. O ganlyniad, bu i'r Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid Busnes gyflyno adroddiad i Fwrdd Prosiect Effeithlonrwydd Strategol y Cyngor yn amlinellu'r angen i'r Cyngor sefydlu cytundeb newydd ynghyd â'r opsiynau a'r buddion wrth symud i gytundeb newydd. Amcangyfrifwyd arbedion refeniw o oddeutu £50,000 yng nghyllideb 2014-15 - roedd yr arbediad yn seiliedig ar wariant cyfartalog dros dair blynedd.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd adolygu'r trefniadau a'r camau ar gyfer sefydlu cytundeb newydd ar gyfer ffonau a dyfeisiadau symudol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu dogfennau'r prosiect gan gynnwys gwirio bod y gwasanaeth wedi cydymffurfio â'r rheoliadau cywir; bod trefniadau penodol ar gyfer sgorio'r tendrau a dderbyniwyd a bod y Cyngor yn derbyn gwasanaeth o'r ansawdd gorau.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod y Cyngor wedi agor cystadleuaeth trwy'r Cytundeb Fframwaith ar 1 Awst, 2014 a detholwyd contractwr am eu gwasanaeth ar 15 Tachwedd, 2014. Ar adeg yr archwiliad, nid oedd y cytundeb wedi ei arwyddo'n ffurfiol oherwydd bod angen gwirio'r "Call Off Form", sef dogfen benodol sydd ynghlwm â'r cytundeb ac yn angenrheidiol o dan drefniadau cytundebau y Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus fel y diffinnir yn y Cytundeb Fframwaith.

Penderfynwyd defnyddio dull cystadleuaeth mini sydd ar Gytundeb Fframwaith y Llywodraeth am wasanaeth ffonau symudol. Cyn y gwnaethpwyd hynny, comisiynwyd prosiect ar gais yr Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid i adnabod cyfrifon ffonau symudol ble nad oedd defnydd ohonynt er mwyn dileu'r cyfrifon hynny.

Adnabuwyd fod gan y Cyngor oddeutu 1800 o gyfrifon ffonau symudol byw - ac yn sgil y prosiect, bu'n bosibl dileu oddeutu 125 cyfrif. Roedd yn rhesymegol i gynnal yr ymarferiad hwn cyn paratoi'r ddogfen dendr.

Fel rhan o’r archwiliad, cynhyrchiwyd adroddiad o’r gweithwyr oedd yn derbyn lwfans ffôn yn eu cyflog. Darganfuwyd bod nifer o’r gweithwyr sydd yn derbyn y lwfans hwn gyda ffôn symudol yn ogystal. Mae’r rhwydwaith symudol gyfredol yn rwydwaith gyflym a dibynadwy, ac felly gellir herio’r anghenraid i dalu lwfans ffôn yn ychwanegol i’r ddarpariaeth o ddyfais symudol ar gyfer rhai gweithwyr. ***Mae’n bwysig nodi nad mater ar gyfer y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yw hyn.***

Penderfynwyd defnyddio fframwaith RM1498 y Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus, yn benodol rhan (*lot*) 6, ble mae’r opsiwn ar gyfer dyfarnu uniongyrchol (*direct award*). Yn y cyfnod o baratoi’r dogfennau, gwerthuso tendr ar gyfer y gystadleuaeth, a’r broses wobrwyo, derbyniwyd tystiolaeth bod y Gwasanaeth TG wedi ymgynghori â’r Uned Caffael ym mhob cam o’r gystadleuaeth. Gellir cadarnhau bod y gystadleuaeth mini wedi ei chynnal yn unol â Rheoliadau Cytundebau Cyhoeddus 2006. Cyhoeddwyd y gwahoddiad i dendr ar gwerthwchigymru.gov.uk (sell2wales.gov.uk) ar 30 Mehefin, 2014 gyda dyddiad cau wedi ei ddynodi, sef 1 Awst, 2014. Ymgorfforwyd yn y ddogfen gwahoddiad i dendr y meini prawf ar gyfer gwerthuso’r tendrau - roedd y meini prawf hynny yn seiliedig ar bris - 65% ac ansawdd - 35% gydag is-benawdau wedi eu diffinio’n glir. Un cwmni a gwblhaodd y tendr ac yn dilyn gwerthusiad o’r tendr gan y Gwasanaeth TG a’r Uned Caffael, daethpwyd i’r casgliad bod y cwmni’n cwrdd â’r gofynion angenrheidiol yn llawn ac o ganlyniad fe ddyfarnwyd y cytundeb i’r cwmni hwnnw.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y trefniadau ar gyfer gosod cytundeb ffonau symudol y Cyngor. Yr unig agwedd sydd angen sylw yw cytuno ar fanylion “Call-Off” y cytundeb fel y gellir symud ymlaen i arwyddo a selio’r cytundeb yn ffurfiol i sicrhau y gwarchodir buddion y Cyngor.**

# TREFNIADAU DYSGU A DATBLYGU
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir gan y systemau Dysgu a Datblygu yn gywir, cyfredol ac o safon sy'n dderbyniol i'r Cyngor. Yn ogystal, mae'n fwriad sicrhau bod y ddarpariaeth e-ddysgu ar gael i'r holl aelodau staff a bod y modd y'i defnyddir yn gwneud y mwyaf o adnoddau'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Ymchwilio i mewn i'r trefniadau o sicrhau ansawdd y wybodaeth a gynhelir o fewn y systemau Dysgu a Datblygu yn ogystal â hyrwyddo a hysbysu'r aelodau o staff o'u bodolaeth.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod defnydd yn cael ei wneud o'r system hyfforddiant sy'n caniatáu rheolwyr i wirio hyfforddiant aelodau o'u staff, ond bod un o'r rhai oedd ddim wedi ei ddefnyddio wedi nodi mai'r rheswm dros hynny oedd bod gwallau ar y system.

Ni welwyd bod y bas-data hyfforddiant wedi ei ddiweddaru gyda gwybodaeth am swyddogion oedd wedi cwblhau'r profion sydd yn ymwneud â pholisïau'r Cyngor. Mae system wahanol bellach i reoli'r polisïau yma ac mae achos busnes wedi ei chynhyrchu ar gyfer creu system fydd yn golygu bod y wybodaeth yn bwydo'n awtomatig o un system i llall. Mae trefniadau ar y gweill felly i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei ddiweddaru. Derbyniwyd gwybodaeth yn ogystal bod e-bost atgoffa'n cael ei anfon yn gyfnodol i berchnogion y polisïau ar-lein i'w hatgoffa i'w wirio a diweddaru yn ôl yr angen. Caiff perchennog y polisi ddewis amlder derbyn yr e-bost yma eu hunain.

Gwelwyd yn ogystal bod gwaith ar y gweill i farchnata a hybu swyddogion i ddefnyddio'r system E-Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys mynd i gyfarfodydd tîm i dderbyn cefnogaeth rheolwyr, ac i ddangos i aelodau o staff sut i'w ddefnyddio. Er nad yw llawer o'r prosesau mewn lle ar hyn o bryd, mae trefniadau pendant mewn lle i sicrhau hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol yn nhrefniadau dysgu a datblygu gan fod rheolaethau mewn lle ac agweddau cynllunedig yn y broses o'u rhoi ar waith.**

- **Dylid marchnata'r system Dolen Ddysgu i reolwyr llinell a staff unwaith y gellid dibynnu ar y wybodaeth sydd ynddo.**

**IECHYD A DIOGELWCH – GWEITHIO'N UNIG**
**Corfforaethol**

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch priodol yn bodoli ar gyfer aelodau o staff sy'n gweithio'n unig yn dilyn gwaredu'r system gorfforaethol gweithio'n unig.

Cwmpas yr Archwiliad
Ymholi Rheolwyr Gwasanaeth ar gyfer sampl o wasanaethau i sicrhau eu bod wedi ystyried iechyd a diogelwch yr aelodau o staff hynny sy'n gweithio'n unig yn ogystal â gwirio dogfennaeth megis asesiadau risg.

Prif Ddarganfyddiadau
Edrychwyd ar sampl o 6 gwasanaeth ar draws y Cyngor. Gwelwyd nad oedd asesiad risg cyfredol ar gyfer gweithio'n unig mewn dros hanner y sampl, gyda rhai heb asesiad risg o gwbl. Mae'n bwysig sicrhau bod risgiau y mae gweithwyr y Cyngor yn eu hwynebu yn cael eu lliniaru cyn belled ag sy'n ymarferol bosib. Bydd adnabod y risgiau yn gymorth i wneud hynny ac i wneud penderfyniadau addas dros sut i'w lliniaru. Yn ogystal â hyn, mae angen nodi trefn waith ar gyfer gweithio'n unig sy'n cynnwys y camau y dylid eu dilyn a beth sy'n ddisgwyliedig o'r swyddogion sy'n gweithio'n unig. Mae cael y rhain yn ysgrifenedig yn cryfhau'r broses ac yn sicrhau fod y swyddogion yn ymwybodol o'r drefn ac nad oes camddealltwriaeth o beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Mae hefyd yn dystiolaeth bod y Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldeb i gymryd gofal rhesymol dros iechyd a diogelwch ei weithwyr o ddifrif. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg bod y Rheolwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i sicrhau trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer eu gweithwyr.

Gwelwyd yn ogystal y byddai'n fuddiol i Reolwyr edrych i mewn i'r adnoddau a thechnoleg sydd ar gael i gefnogi gweithwyr unig fel y gellid gwneud y mwyaf ohonynt.

Bydd y gwasanaethau a archwiliwyd fel rhan o'r sampl yn derbyn gwybodaeth am yr argymhellion sy'n berthnasol iddynt hwy yn ogystal â'r adroddiad llawn.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Iechyd a Diogelwch – Gweithio'n Unig gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai bod asesiadau risg perthnasol yn cael eu sefydlu sy'n cyfeirio at drefniadau gweithio'n unig yr adran / gwasanaeth.**
- **Dylid sicrhau bod yr asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n flynyddol a bod hynny'n cael ei nodi ar yr asesiad.**
- **Dylid datblygu trefn waith a'i rhannu â'r aelodau o staff perthnasol. Yn ogystal â hyn, dylid monitro'n rheolaidd i sicrhau bod y trefniadau gweithio'n unig yn cael eu dilyn.**
- **Dylai bod trefniadau'n cael eu sefydlu ar gyfer y gweithwyr hynny sydd yn dychwelyd gartref ar ôl cyflawni eu dyletswyddau / ymweliadau e.e. cysylltu â'r swyddfa i gadarnhau eu bod gartref.**
- **Dylid sicrhau bod y swyddfa'n ymwybodol o ble mae'r swyddogion yn ymweld.**
- **Awgrymir bod Rheolwyr perthnasol yn cysylltu â'u cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch fel y gallent edrych i mewn i'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer gweithio'n unig.**
- **Dylid cynnig y cwrs Diogelwch Personol sy'n cael ei gynnal yn gorfforaethol gan y Cyngor i swyddogion perthnasol.**

**PROTOCOL AR GYSWLLT AELOD – SWYDDOG**
**Corfforaethol**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod aelodau a swyddogion yn cydymffurfio gyda'r protocol ar gyfer cysylltiadau Aelodau a Swyddogion. Bod y naill ochr a'r llall yn deall pwysigrwydd cydymffurfio a'i gilydd gan ddilyn yr arweiniad a amlinellir iddynt yn y protocol hwn.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwiriwyd bod Aelodau a Swyddogion yn ymwybodol o'r protocol a'i gynnwys. Sicrhawyd eu bod yn cyfathrebu a chydweithio gyda'i gilydd yn effeithlon gan gyrraedd gofynion a amlinellir o fewn y protocol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd o'r archwiliad fod y protocol yn cael ei ymgorffori yn ystod gwaith dydd i ddydd rhwng swyddogion ac aelodau. Mae'r Swyddog Monitro yn cymryd rhan flaenllaw i sicrhau bod y protocol yn cael ei ddilyn law yn llaw â chod ymddygiad aelodau a chod ymddygiad swyddogion. Mae'r protocol mewn lle er mwyn gwarchod aelodau a swyddogion o fewn eu swyddi fel nad yw eu dyletswyddau yn cael eu tanseilio oherwydd ymddygiad a gofynion y naill ochr i'r llall. Caiff pob achos o dorri'r protocol neu amheuaeth o hynny ei drin yn unigol gan y Swyddog Monitro. Mae achosion yn codi yn rhai ar hap, ac nid ydynt yn dilyn yr un drefn bob tro gan eu bod yn gallu digwydd ar unrhyw adeg o dan unrhyw amgylchiadau. Felly, mae'n hanfodol ymwneud â phob un yn unigol er mwyn sicrhau pob chwarae teg i'r rhai a gaiff eu heffeithio. Fodd bynnag, gwelwyd ar adeg yr archwiliad nad oedd fersiwn Cyfansoddiad y Cyngor ar wefan y Cyngor wedi ei ddiweddaru.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ym Mhrotocol ar Gyswllt Aelod - Swyddog gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod yr hen Gyfansoddiad yn cael ei ddiweddaru gyda'r Cyfansoddiad newydd ar wefan y Cyngor.**
- **Dylid atgoffa'r Aelodau etholedig o'r angen i arwyddo i mewn ac allan wrth iddynt ymweld ag unrhyw eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor yn unol â'r Polisi Diogelwch Tân Corfforaethol.**
- **Dylid ystyried ychwanegu cymal i'r Protocol sy'n nodi'r angen i ddatgan unrhyw gysylltiad personol agos, neu efallai gyfeirio at y 'Polisi Buddiannau Staff' yn y Protocol.**
- **Dylid ystyried ychwanegu cymal ar gyfer apêl yn y Protocol.**

**LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL – GWEITHREDU PENDERFYNIADAU PWYLLGOR**
**Corfforaethol**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod penderfyniadau pwyllgor yn cael eu gweithredu yn unol â'r rheolau ac yn amserol.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar ddethol sampl o benderfyniadau a sicrhau bod yr hyn a benderfynwyd wedi ei ddogfennu a'i weithredu ar sail gytbwys ac yn y modd cywir. Hefyd, gwiriwyd cofnodion pwyllgorau, ffioedd a thaliadau ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn ystod yr archwiliad darganfuwyd mai Arweinydd y Cabinet sydd â'r awdurdod i ddirprwyo Swyddogaethau Gweithredol. Yr Arweinydd sydd â'r awdurdod i benderfynu os dylai aelodau unigol o'r Cabinet gael cyfrifoldeb am swyddogaethau penodol (portffolios) yn ogystal ag awdurdodi'r Aelodau unigol yma i wneud penderfyniadau yn bersonol mewn cysylltiad â'r portffolio hynny.

Detholwyd sampl o 8 penderfyniad a gwelwyd bod cofnodion priodol ar gyfer pob un ohonynt. Sicrhawyd bod y penderfyniadau wedi eu gwneud gan yr Aelod Cabinet/Pwyllgor cywir ym mhob achos.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Llywodraethu Corfforaethol – Gweithredu Penderfyniadau Pwyllgor gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

**SYSTEM DYLEDWYR - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**"fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."**

Caiff trefniant y system dyledwyr ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y ddyletswydd o godi anfonebau ar gwsmeriaid wedi eu dynodi i swyddogion awdurdodedig gyda'r wybodaeth yn ymddangos yn y cyfriflyfr yn gyflawn yn ogystal â'r incwm mae'r Cyngor yn ei dderbyn, gyda chysoniad yn cael ei gwblhau. Hefyd, sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle dros adennill a dileu dyledion gyda gwybodaeth yn cael ei ddarparu i reolwyr.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio pa swyddogion sydd gyda'r ddyletswydd o godi a dosbarthu anfonebau i gwsmeriaid gan ddethol sampl o'r anfonebau a gwirio bod y wybodaeth yn ymddangos yn y cyfriflyfr ariannol yn gywir. Gwirio fod unrhyw incwm mae'r Cyngor yn ei dderbyn yn cael ei bostio yn y cyfriflyfr a bod cysoniad yn cael ei gwblhau'n rheolaidd. Gwirio os yw'r trefniadau adennill wedi'i ddogfennu a bod monitro adennill yn cymryd lle gan wirio os yw'r trefniadau dileu dyledion yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Gwirio bod monitro incwm yn erbyn cyllidebau yn cymryd lle.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod prosesau, gweithdrefnau a gwahaniad dyletswyddau priodol mewn lle ar gyfer casglu dyledion. Mae'r broses o greu dyled ar y cyfan yn cael ei weithredu gan y gwasanaethau perthnasol, gyda'r adfer yn cael ei weithredu a'i gyd-gordio gan yr Uned Incwm. Adolygwyd sampl o ddyledion oedd wedi eu dileu yn ystod 2013/14 a gwelwyd fod y camau priodol wedi eu cymryd. Gwiriwyd y prosesau sydd mewn lle ar gyfer sicrhau bod yr anfonebau wedi eu postio'n gywir i'r cyfriflyfr, gan gymharu manylion a gwelwyd eu bod i gyd yn cysoni.

Amlygwyd elfennau o ddyblygu yng nghyfrifon cwsmeriaid, sef mwy nag un cyfrif yn bodoli ar gyfer yr un cwsmer. Nid oes modd creu dyled yn erbyn cwsmer os nad ydynt wedi eu sefydlu ar y system dyledwyr. Y Gwasanaeth Incwm sydd â'r hawl i sefydlu cwsmer o fewn y system, h.y. y modiwl "*Accounts Receivable*", ond ar gais y gwasanaethau unigol yn unig. Ar gyfer ceisiadau am waith penodol a brosesir drwy Galw Gwynedd ble mae'r angen i godi anfoneb, caiff y manylion eu cofnodi yn system Siebel ac yna bydd echdyniad o'r system yn cael ei mewnforio i'r modiwl dyledwyr.

Fodd bynnag, ag eithrio dau gwsmer penodol, nid yw rhif y dyledwr yn wybyddus i swyddogion Galw Gwynedd ac o ganlyniad bydd rhif cwsmer yn cael ei greu yn awtomatig ar gyfer pob anfoneb newydd a gaiff ei chreu drwy system Siebel. Golyga hyn bod y potensial i gyfrifon dyblyg gynyddu yn sylweddol.

Hefyd, amlygwyd cyfeirnodau dyblyg ar gyfer anfonebau, sef anfonebau gwahanol efo'r un cyfeirnod, gall olygu mewn rhai achosion eithriadol bod cwsmeriaid yn talu'r anfoneb anghywir. Er bod yr Uned Incwm eisoes wedi trafod y broblem yma gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth nid yw wedi ei ddatrys hyd yma. Eglurwyd bod angen 15digid i brosesu taliad yn llawn, nid y cyfeirnod yn unig ac felly mae'r tebygolrwydd o gwsmer yn talu'r anfoneb anghywir yn annhebygol iawn.

Cymerwyd sampl o ddyledion oedd yn y broses adennill er mwyn darganfod pa weithrediad oedd wedi ei gofnodi ar y brif system gyfrifo. Nid oedd y gweithrediad yn cyd-fynd gyda'r amserlen adennill mewn sawl achos ond eglurwyd bod sylw yn cael ei roi i'r dyledion mwyaf.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod swyddogion perthnasol Galw Gwynedd yn derbyn mynediad "darllen yn unig" i fanylion y bas-data dyledwyr ynghyd â chynnal trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Gofal Cwsmer a'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth ar gyfer sefydlu sgript pwrpasol ar gyfer allforio y manylion yn gywir i'r modiwl dyledwyr er mwyn osgoi y niferoedd o gyfrifon dyblyg.**
- **Dylid darganfod datrysiad er mwyn gwaredu'r risg o dalu anfonebau anghywir.**

**SYSTEM TALIADAU - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."**

Caiff y system taliadau ei hystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer prosesu, gweithredu a chysoni taliadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn adolygu sampl o daliadau a wnaethpwyd i gredydwyr y Cyngor yn ystod 2014/15 ynghyd â rheolaethau dros ddata credydwyr.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer prosesu a gweithredu taliadau. Gwelwyd fod prosesau ynghyd â'r defnydd o systemau cyfrifiadurol mewn lle er mwyn sicrhau bod anfonebau'n cael eu prosesu'n briodol a thaliadau cywir yn cael eu gwneud. Yn ogystal, gwelwyd bod defnydd o gyfleuster sy'n amlygu ac yn adnabod dyblygiadau mewn manylion anfonebau. Gwelwyd bod mesurau atal twyll wedi eu hymgorffori yn y prosesau taliadau, gan sicrhau fod rolau wedi eu diffinio, a hawliau wedi eu gosod yn seiliedig ar hynny gan orfodi gwahaniad dyletswyddau rhwng y sawl sydd yn awdurdodi anfonebau, mewnbynnu data, goruchwylio'r mewnbwn, awdurdodi taliadau, a chysoni'r balansau. Gwelwyd bod taflen bwrpasol wedi ei sefydlu ar gyfer ceisiadau a dderbynnir i newid manylion data sefydlog, yn benodol, manylion cyfrif banc. Darganfuwyd bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal a bod gwahaniad dyletswyddau digonol yn y broses ar gyfer newid manylion banc credydwr. Oherwydd yr angen yn achlysurol i greu cyfrif ar gyfer dau gyflenwr gwahanol sydd yn perthyn i'r un cwmni rhiant, ac o ganlyniad yn defnyddio'r un cyfrif derbyniadau a rhif TAW, nid oes rhwystr i greu cyfrifon dyblyg ar gyfer credydwyr. Dylid ceisio sicrhau bod hyn yn digwydd mewn amgylchiadau ble mae'n gwbl angenrheidiol yn unig.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ceisio sicrhau bod cyfrifon hefo manylion dyblyg yn cael eu creu mewn amgylchiadau ble mae'n gwbl angenrheidiol yn unig.**

**CYSONI BANC - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".***

Caiff trefniant cysoni banc ei ystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gweithdrefnau mewn lle ac wedi eu dogfennu ar gyfer cynnal cysoniadau banc yn effeithiol, amserol, yn gyflawn a chywir a sicrhau bod trefniadau monitro digonol mewn lle.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r gweithdrefnau sydd mewn lle ar gyfer cynnal cysoniadau banc a sicrhau bod canllawiau ar gael i swyddogion. Dethol sampl o gysoniadau banc yn 2014/15 a sicrhau eu bod yn cyd-fynd gyda'r gweithdrefnau. Sicrhau bod cysoniadau banc yn cael eu hadolygu a'u harwyddo'n rheolaidd.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd ar y cyfan fod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli yn y broses cysoni gydag ail swyddog wedi gwirio'r cysoniadau o fewn y sampl a ddetholwyd. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd ail swyddog wedi gwirio'r gwaith cysoniad ar gyfer misoedd 2 a 3. Mae'n hanfodol sicrhau bod ail swyddog yn gwirio'r cysoniadau fel y gellid sicrhau cywirdeb a lliniaru'r risg o unrhyw gamgymeriadau sy'n hanfodol ar gyfer darparu cyfrifon y Cyngor. Rhaid nodi fod hyn hefyd wedi ei amlygu yn archwiliad y flwyddyn ddiwethaf. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Uwch Reolwr Cyllid, eglurwyd y bydd trefniadau ar gyfer gwirio mewn absenoldebau'n cael eu sefydlu ar unwaith.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod cysoniadau'r Uned Gyllid Canolog yn cael eu hawdurdodi a'u tystio'n gywir gan Uwch Swyddog.**

**SYSTEM GYFLOGAU – ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**Cyllid**

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol bwysig y Cyngor yn flynyddol,"***

Caiff y system gyflogau ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Roedd yr adolygiad yma yn canolbwyntio ar reolaethau cynnal y system gyflogau ar gyfer y flwyddyn 2014/15.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau'r Uned Gyflogau wrth weinyddu'r cyflogresi. Serch hyn, amlygwyd gwendid wrth wirio'r ddogfen 'Payroll Checking Document', amlygwyd ar dri achlysur nad oedd llofnod yn y rhan 'Payrun Reports checked by' a dim llofnod yn y rhan 'Journal checked by' ar un achlysur. Dengys llofnod yn y rhannau yma bod y gwiriadau perthnasol wedi eu cwblhau cyn rhyddhau'r cyflogresi i'w talu. Hefyd, ni dderbyniwyd copi o'r daflen o gwbl ar gyfer un mis. Fodd bynnag, cymerwyd sampl eto ar gyfer mis Ionawr a gwelwyd bod y taflenni wedi eu harwyddo a'u dyddio'n briodol.

Yn ogystal, darganfuwyd nad oes gan yr uned ganllawiau cyfredol ar gyfer y staff - nid yw'r ddogfen 'Payroll Manual' sydd yn dangos y camau i'w cymryd mewn sefyllfaoedd gwahanol o fewn y system wedi ei ddiweddaru ers blynyddoedd. Hefyd, nid yw Cynllun Parhad Gwasanaeth yr Uned ('Contingency Plans for Emergency Payment of Salaries') yn gyfredol ychwaith. Mae'r Rheolwr Cyflogau yn ymwybodol o hyn. Dylid nodi mai'r un gwendidau a ddarganfuwyd yn archwiliad 'System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol' 2013-14.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel y ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod canllawiau cyfredol ar gael i bob aelod o staff.**
- **Dylid sicrhau bod dogfennaeth briodol "Payroll Checking Document" yn cael eu llofnodi a'u dyddio i ddangos bod y gwirio perthnasol wedi ei gwblhau.**
- **Dylid diweddaru cynllun parhad gwasanaeth yr Uned Gyflogau.**

**CYFLOGAU – SWYDDI LLUOSOG**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gweithwyr sydd gyda swyddi lluosog yn cael eu rheoli a bod yr oriau gwaith wythnosol a weithir yn cydymffurfio gyda'r gyfraith 'European Working Time Directive' sef cyfyngiad o 48 awr gwaith yr wythnos. Ni ddylid gweithio mwy nag 48 awr yr wythnos ar gyfartaledd oni bai bod y gweithiwr wedi eithrio allan o'r trefniant yma. Yn ogystal, adolygwyd cofnodion y Cyngor er mwyn sicrhau bod trefniadau mewn lle a bod adroddiadau'n cael eu cynhyrchu sydd yn manylu ar gyfansymiau gweithwyr unigol.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar drefniadau o fewn y Cyngor ar gyfer rheoli swyddi lluosog. Detholwyd sampl a chynnal gwiriadau i sicrhau bod cytundebau gwaith yn cyd-fynd gyda chofnodion taenlenni amser a sicrhau bod yr oriau a weithir yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth. Hefyd archwiliwyd cyfraniadau yswiriant gwladol er mwyn sicrhau bod trothwy'r 'Lower Earnings Limit' yn weithredol.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae Rheoliadau Amser Gwaith 1998 yn golygu nad oes gan gyflogwr yr hawl i orfodi gweithiwr i weithio dros 48 awr yr wythnos oni bai eu bod yn cael eu heithrio o'r trefniant, drwy gwblhau cais /ffurflen ysgrifenedig. Oriau gwaith swyddogol y Cyngor yw 37 awr yr wythnos. Detholwyd sampl o swyddogion oedd gyda swyddi lluosog o fewn y Cyngor a gwirio eu bod yn gweithio oriau yn unol â'r gyfraith. Dadansoddwyd dogfennau swyddogol a oedd yn ymwneud â swyddi'r gweithwyr yn y sampl yn ogystal â defnyddio'r system gyflogau a thaflenni amser. Hefyd, gwiriwyd eu cyflogau am gyfnod o 17 wythnos er mwyn darganfod cyfartaledd yr oriau roeddynt wedi gweithio. O'r sampl o 18 a ddetholwyd, darganfuwyd bod 9 yn gweithio mwy na'r trothwy sef 48 awr yr wythnos ar gyfartaledd.

Sicrhawyd nad oedd y gweithwyr yn y sampl yn cyfrannu at yswiriant gwladol os nad oeddynt yn cyrraedd trothwy 'Lower Earrnings Limit' (LEL) fel y diffinnir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Un o'r gweithwyr yn y sampl yn unig oedd â chyflog yn is na'r trothwy LEL a gwelwyd nad oedd yn talu yswiriant gwladol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Cyflogau - Swyddi Lluosog gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Yn ddelfrydol, un ffeil personél a ddylai fodoli ar gyfer pob gweithiwr - byddai hyn yn hwyluso ar gyfer sawl elfen o delerau cyflogaeth. Cydnabyddir nad yw hyn yn ymarferol ar hyn o bryd ond efallai y dylai fod yn fater neu destun adolygiad Ffordd Gwynedd.**
- **Bod y Grŵp Tasg Rheoliadau Amser Gwaith (Working Time Directive) dan arweiniad yr Ymgynghorydd Adnoddau Dynol yn adolygu'r rhestr o weithwyr sydd â chyfartaledd uwch na'r trothwy cyfreithiol.**
- **Dylid diweddaru'r cyfarwyddyd ar dudalen fewnrwyd yr Uned Gyflogau ynglŷn ag Yswiriant Gwladol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd a chyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.**

**CRONFA BENSIWN GWYNEDD – ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol bwysig y Cyngor yn flynyddol,"***

Er bod gweinyddiaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd yn dibynnu'n helaeth ar systemau ariannol Bwysig y Cyngor, caiff systemau gweinyddol y Gronfa eu hystyried yn "system ariannol bwysig" ynddi ei hunain yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r gweithdrefnau sydd mewn lle ar gyfer gweinyddu'r Gronfa Bensiwn ar gyfer 2014-15. Dethol sampl o daliadau a sicrhau eu bod wedi eu rhyddhau'n briodol yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu a'u harwyddo'n briodol. Nid oedd bwriad archwilio'r elfen buddsoddi.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, amlygwyd gwendid wrth wirio'r slipiau TR27b. Nid oedd y blwch 'unigryw' yn cael ei lenwi ar y slipiau TR27b - pwrpas y gwiriad hyn yw sicrhau nad yw'r taliad wedi ei brosesu o'r blaen ac i osgoi taliad dyblyg. Amlygwyd y mater yma yn yr adolygiad a gynhaliwyd y llynedd.

Yn ogystal, mae gwendid yn y trefniadau ar gyfer derbyn gwybodaeth gan y Cyflogwyr. Mae'r Uned Bensiynau yn dibynnu ar y Cyflogwyr i'w hysbysu o unrhyw newidiadau i ddata megis oriau gwaith, statws a.y.b. ond nid yw hyn yn digwydd. Mae'r mater yma eisoes wedi derbyn sylw Swyddfa Archwilio Cymru yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Cronfa Bensiwn Gwynedd a gyhoeddwyd ym misd Medi 2014. Fodd bynnag mae'r Uned Bensiynau wedi prynu'r system i-Connect a fyddai'n rhedeg adroddiadau misol o systemau cyflog y Cyflogwyr a'u hanfon wedi eu hamgryptio i'r Uned Bensiynau a fyddai'n golygu bod y wybodaeth yn cael ei dderbyn yn amserol. Ar adeg yr archwiliad roedd Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistrefol Conwy wedi ymrwymo i'r system ond mae gwaith 'matchio' data cyn iddo gael ei wneud yn weithredol, noder bod y gwaith yma yn symud yn ei blaen.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn**

- **Dylid sicrhau bod y blychau gwirio ar y TR27b yn cael eu llenwi'n briodol h.y. nid oes angen llofnodi'r blwch "Derbyniwyd" gan nad oes gwasanaeth wedi ei dderbyn a'r angen i lofnodi'r blwch "Unigryw" i ddangos bod gwiriad wedi ei wneud i sicrhau nad yw'n daliad dyblyg.**

**SYSTEM BUDD-DALIADAU –**
**ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol bwysig y Cyngor yn flynyddol,"***

Caiff y System Fudd-dal ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer asesu a phrosesu ceisiadau budd-dal, bod y system budd-dal yn cyfrifo symiau budd-daliadau'n gywir ac fe'u telir yn amserol. Cadarnhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal, adolygu trefniadau rheoli perfformiad yr uned a gwirio bod trefniadau diogelu data digonol mewn lle.

Cwmpas yr Archwiliad

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15, archwiliwyd sampl o geisiadau budd-dal i sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal. Gwiriwyd bod cysoniadau yn cael eu cynnal a bod y taliadau budd-dal yn cael eu cyfrifo a'u talu mewn modd cywir ac yn amserol. Aseswyd statws perfformiad y gwasanaeth ynglŷn â gweithredu ar geisiadau a hysbysiadau budd-dal a gwirio bod y system budd-dal yn cael ei rheoli'n effeithiol a bod yr holl ddata yn cael ei ddiogelu'n briodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau gweinyddu'r System Budd-daliadau. Mae'r swyddogion yn derbyn hyfforddiant fel bo'r angen ac yn cael eu hysbysu o unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth, yn ogystal, unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau a ddaw i'r system. Detholwyd sampl ar hap o geisiadau newydd gan wirio bod sgôr risg wedi ei gofnodi a'u bod wedi eu cyfrifo'n gywir a'u talu'n amserol. Yn ogystal gwiriwyd sampl o daliadau estynedig a cheisiadau am ôl-ddyddio, gwelwyd eu bod yn unol â'r rheoliadau cyfredol. Mae perfformiad yr Uned yn dda wrth gymharu gyda pherfformiad Cymru a Phrydain h.y. cyfartaledd yr amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd a chyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau. Mae rhaglen waith newydd ar droed sydd yn cynnwys lliflinio'r dull mae'r Uned yn ei ddefnyddio i ymdrin â cheisiadau newydd. Gwelwyd bod llithriad bychan ym mherfformiad prosesu hysbysiad newid amgylchiadau ond nodir y bu cynnydd yn y nifer o newidiadau wrth gymharu gyda'r flwyddyn ddiwethaf (nifer o newidiadau yn chwarter 3, 2013/14 = 16,724 i gymharu gydag 18,310 yn chwarter 3, 2014/15). Hefyd bu raid i staff ymdopi gyda menter newydd 'RTI' (Real Time Information) yr Adran Waith a Phensiynau. Serch y cynnydd mewn llwyth gwaith a'r fenter newydd 'RTI', mae perfformiad yr Uned Budd-daliadau yn ganmoladwy.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

**SYSTEM TRETH CYNGOR - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".***

Caiff y system Treth Cyngor ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod cyfansymiau biliau Treth Cyngor wedi cael eu gosod yn gywir ac yn unol â'r symiau a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn yn ogystal ag awdurdodau eraill. Sicrhau fod y cyfansymiau eiddo yng Ngwynedd wedi cael eu cofnodi'n gywir ar y system ac yn cyd-fynd ag adroddiadau'r Swyddfa Brisio. Cadarnhau bod y cyfrif ariannol wedi cael ei ddiweddaru'n briodol a bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer adennill dyledion treth cyngor yn ogystal â sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer monitro a rheoli perfformiad yr Uned.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu a phrofi bod canllawiau, cofnodion a'r gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer rheoli, casglu a dosbarthu Treth Cyngor 2014-15.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli wrth weinyddu'r dreth cyngor. Adnabuwyd un gwendid, sef diffyg polisi / gweithdrefnau adennill swyddogol. Gwelwyd bod gweithdrefnau wedi eu llunio a derbyniwyd copi, ond nid yw wedi ei fabwysiadu'n swyddogol. Byddai mabwysiadu polisi neu weithdrefnau yn fodd o gadarnhau statws y ddogfen fel un swyddogol a'r angen i gydymffurfio â'r cynnwys.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn rheolaethau allweddol y System Treth Cyngor ar gyfer 2014-15 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

- **Dylid mabwysiadu gweithdrefnau ar gyfer adennill treth cyngor er mwyn cadarnhau ei statws fel dogfen swyddogol.**

**SYSTEM TRETHI BUSNES - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".***

Caiff y system Trethi Busnes ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod biliau Trethi Busnes wedi eu prosesu'n gywir ac yn unol â'r gwerthoedd trethiannol sydd wedi eu gosod gan y Swyddfa Brisio a bod prosesau priodol ar gyfer eu casglu, cofnodi a monitro'r taliadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu a phrofi bod canllawiau, cofnodion a gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer rheoli, casglu a chofnodi Trethi Busnes 2014-15.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli wrth weinyddu trethi busnes. Adnabuwyd un gwendid, sef diffyg polisi adennill swyddogol. Gwelwyd bod gweithdrefnau wedi eu llunio a derbyniwyd copi, ond nid yw wedi ei fabwysiadu'n swyddogol. Byddai mabwysiadu polisi neu weithdrefnau yn fodd o gadarnhau statws y ddogfen fel un swyddogol a'r angen i gydymffurfio â'r cynnwys.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn rheolaethau allweddol y System Trethi Busnes ar gyfer 2014-15 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

- **Dylid dogfennu'r gweithdrefnau ar gyfer adennill trethi busnes er mwyn cadarnhau ei statws fel dogfen swyddogol.**

**TG – TREFNIADAU WRTH GEFN A PHARHAD GWASANAETH**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod cynlluniau priodol mewn lle i osod gwydnwch o fewn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, fel ei fod yn gallu parhau i ddarparu ei wasanaeth i'w gleientau mewn achosion o ddigwyddiad(au) sydd yn amharu ar y gweithdrefnau arferol.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygwyd dogfennaeth sydd wedi ei baratoi ar gyfer parhad busnes gan asesu eu priodoldeb. Adolygwyd mesurau sydd mewn lle i greu a chynnal copïau wrth gefn o ddata. Hefyd, cynhaliwyd trafodaethau gyda’r swyddogion perthnasol o fewn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth.

Prif Ddarganfyddiadau

Un o’r prif wendidau a amlygwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oes gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth gynllun parhad gwasanaeth cyfredol. Mae’r gwasanaeth yn darparu ar gyfer nifer o wasanaethau sydd ag anghenion gwahanol o fewn y Cyngor ac felly mae’n hanfodol bod eu hanghenion yn cael eu hamlygu a bod mesurau mewn lle ar gyfer adfer eu gwasanaeth penodol hwy. Gwelwyd bod dogfen ‘IT Disaster Recovery Plan’ wedi ei lunio ar gyfer adfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd o safbwynt Technoleg Gwybodaeth. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod cynllun parhad gwasanaeth yn unol â’r templed sydd wedi ei gynhyrchu gan fforwm cydweithio gwasanaethau awdurdodau Gogledd Cymru yn cael ei baratoi. Er nad oes cynllun mewn lle, mae trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer adolygu’r trefniadau yn yr wythnosau nesaf.

Gwendid arall a amlygwyd oedd nad oedd gwaith profi wedi cymryd lle ers sawl blwyddyn, gall hyn olygu nad yw prosesau’n gweithio’n effeithiol. Nodir bod trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer Hydref, 2015 erbyn hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn Nhrefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth - Technoleg Gwybodaeth gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y gwaith profi yn symud yn ei flaen eleni.**
- **Dylid trefnu gwaith profi ar y fersiynau wrth gefn o raglenni/systemau a sicrhau bod amserlen addas wedi ei darparu ar gyfer cyflawni hyn ynghyd â sicrhau bod dogfennaeth lawn yn cael ei baratoi, e.e. gwersi a ddysgwyd.**

**CYDGYFEIRIANT RHWYDWAITH**
**Cyllid**

Cefndir

Mae "Protocol Llais dros y Rhyngrwyd", neu VoIP (Voice over Internet Protocol) yn dechnoleg sydd yn caniatáu i alwadau gael eu gwneud drwy gysylltiad rhyngrwyd neu fand eang gyda chyflymder uchel. Y prif reswm dros gyflwyno'r dechnoleg yw'r potensial i dorri costau yn sylweddol drwy arbedion ar renti llinellau tir a chylchred ISDN. Yn ogystal â'r arbedion, mae "Protocol Llais dros y Rhyngrwyd" yn cynnig nodweddion megis galwadau fideo a fideo-gynadledda, offer cydweithio integredig fel negeseuon sydyn a phresenoldeb. Hefyd, gall VoIP fod o werth o safbwynt parhad gwasanaeth a chynllunio argyfwng oherwydd gellir sefydlu'r ffonau yn unrhyw le sydd â chysylltiad rhyngrwyd.

Fe gyflwynwyd Protocol Llais dros y Rhyngrwyd fel un o brosiectau arbedion y cyn Adran Gofal Cwsmer a oedd i gyflawni £105,000 o arbedion yn 2011/12, yn codi i £230,222 wrth gynnwys oll o sefydliadau'r Cyngor. Fe glustnodwyd buddsoddiad o £291,000 gan y Cyngor er mwyn gwireddu'r arbedion.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd adolygu'r trefniadau a'r camau ar gyfer cyflwyno "Protocol Llais dros y Rhyngrwyd" a gwirio bod canlyniadau'r prosiect yn gwireddu'r arbedion disgwyliedig.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu dogfennau'r prosiect gan gynnwys yr achos busnes, cynllun prosiect a'r gwariant. Nid oedd yr archwiliad yn cwmpasu'r elfennau technegol sydd ynghlwm â "Protocol Llais dros y Rhyngrwyd".

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd y bu'n anorfod terfynu'r prosiect gwreiddiol a sefydlwyd drwy gynllun cenedlaethol a hyrwyddwyd gan Lywodraeth Cymru drwy law'r PSBA - Public Sector Broadband Aggregate - oherwydd daeth yn amlwg, serch yr adnoddau a neilltuwyd i'r prosiect nad oedd y prosiect am gwrdd â gofynion a disgwyliadau Cyngor Gwynedd yn arbennig wrth ystyried anghenion y Ganolfan Gyswllt - Galw Gwynedd. Ymhellach, bu i'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth bwrcasu nifer o ffonau costus ar gyfer y prosiect yma - mae mwyafrif y cyfarpar hwn yn segur yn storfa'r Gwasanaeth TG ac yn ddiwerth i anghenion y prosiect cyfredol sydd ar y gweill.

Paratowyd tendr ac aethpwyd allan i'r farchnad er mwyn darganfod darparwr a all ddarparu datrysiad ar gyfer anghenion Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd dau ymateb i'r tendr ar gyfer cyflwyno gwasanaeth llais integredig safonol yng Ngwynedd. Roedd y prisiau a dderbyniwyd gan y ddau ymateb yn sylweddol uwch o safbwynt y buddsoddiad cyfalaf.

Fe gyflwynwyd "Protocol Llais dros y Rhyngrwyd" fel un o brosiectau arbedion y cyn Adran Gofal Cwsmer. Fe glustnodwyd buddsoddiad gwreiddiol o £291,000 gan y Cyngor er mwyn gwireddu'r arbedion a llwyddwyd i ennill buddsoddiad pellach o £201k yn sgil y costau uwch. Amcangyfrifwyd y buasai'r prosiect gwreiddiol yn cyflawni £105,000 o arbedion yn 2011/12, ac yn codi i £230,222 wrth gynnwys holl sefydliadau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae oediadau i'r prosiect wedi golygu nad oedd modd gwireddu'r arbedion disgwyliedig ac roedd angen pontio arbedion o gyllidebau TG a Chorfforaethol eraill oedd yn tanwario er mwyn ariannu'r diffyg.

Ar amser yr archwiliad, roedd gwaith yn mynd rhagddo yn y Ganolfan Gyswllt i weithredu'r system newydd, ac erbyn y 9$^{fed}$ o Fawrth roedd y Ganolfan Gyswllt yn defnyddio'r dechnoleg newydd.

**Barn yr Archwiliad**

**Serch bod y prosiect cyfredol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, mae llawer o wersi i'w dysgu, megis a ddylid fod wedi parhau cyhyd â phrosiect a ddaeth i'r amlwg dros amser nad oedd am gwrdd â gofynion y Cyngor; gall yr adnoddau a neilltuwyd ar gyfer y prosiect dros sawl blwyddyn fod wedi eu harallgyfeirio i brosiectau eraill; buddsoddiad mewn cyfarpar sydd bellach yn ddiwerth i bwrpasau'r Cyngor ynghyd â'r methiant i wireddu'r arbedion disgwyliedig.**

Eglurodd yr Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid mai peilot yn unig a wnaethpwyd a pe na fyddai'r Cyngor wedi gwneud y buddsoddiad *"fe allwn fod wedi mynd i'r ddarpariaeth yn gwbl gudd a byddai'r gwastraff yn wirioneddol ac ar swm lawer mwy."*

**CYNLLUN DATBLYGU AMGUEDDFA AC ORIEL GWYNEDD**
**Economi a Chymuned**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaeth gyllidebol a cynnydd y cynllun datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd yn ddigonol ac yn cyd-fynd a llawlyfr rheoli prosiectau y Cyngor. Sicrhau bod taliadau sy'n cael eu cwblhau i gontractwyr gyda'r cynllun yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn a bod y taliadau wedi'u gyfrifo'n gywir gyda dogfennau digonol i gyfiawnhau'r taliadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio'r trefniadau a'r rheolaethau sydd mewn lle i liniaru ystod o risgiau yn ymwneud â rheolaeth y cynllun datblygu.

Prif Ddarganfyddiadau

Er fod camau wedi eu gwneud i gryfhau'r rheolaethau mewnol wrth i'r cynllun datblygu fynd yn ei flaen, gwelwyd fod gwendidau yn y trefniadau rheoli risg yn gynnar yn y prosiect. Y pennaf o'r rhain oedd methiant i sefydlu cytundeb ysgrifenedig o dan sêl yn unol â'r disgwyliadau, er fod y ddogfen tendr a gyflwynwyd yn lliniaru nifer o'r risgiau hyn. Gwelwyd hefyd na sefydlwyd bond gyda'r contractwr ar un cam o'r prosiect.

Erbyn rhyddhau'r adroddiad yma, roedd y materion hyn wedi cael eu cywiro.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng nghynllun datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y daenlen cefnogi'r dystysgrif interim yn cael ei derbyn pob amser gan y pensaer gyda'r dystysgrif interim, a dylid gwirio fod cyfanswm gros y dystysgrif interim yn gywir ac yn cysoni gyda'r daenlen cefnogi, cyn prosesu'r taliad i'r contractwr.**
- **Dylid sicrhau bod archebion amrywiadau yn cael eu cwblhau ar gyfer holl amrywiadau sy'n cymryd lle gyda gwaith cyfalaf y cynllun datblygu yn y dyfodol. Dylai'r archebion amrywiadau yma datgan ffi gytunedig yr amrywiad rhwng y Cyngor a'r contractwr, a dylent gael eu harwyddo a'u dyddio gan gynrychiolydd perthnasol ar ran y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau fod cytundebau yn cael eu sefydlu gyda contractwyr ar gychwyn prosiectau cyfalaf, ac yn unol â Rheolau Sefydlog Contractau a Rheolau Caffael y Cyngor, yn y dyfodol.**

**GALW GWYNEDD**
**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Cefndir
Canolfan Gyswllt ym Mhenrhyndeudraeth yw Galw Gwynedd. Mae’r ganolfan yn derbyn galwadau ffôn gan drigolion ac yn delio gyda’r ymholiadau mwyaf cyffredin megis tocynnau parcio a theithio, bathodynnau glas ayyb ar unwaith, neu drosglwyddo galwadau i adrannau priodol o fewn y Cyngor petai’r ymholiadau angen ateb mwy arbenigol.

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau cyflogi, rheoli a monitro perfformiad swyddogion Galw Gwynedd yn briodol.

Cwmpas yr Archwiliad
Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau monitro goramser, gwyliau, hyfforddiant a rheoli perfformiad staff y Ganolfan Gyswllt. Yn ogystal, roedd yr archwiliad yn cynnwys trefniadau parhad busnes Galw Gwynedd a’u cyfraniad at gynllun cenedlaethol ‘Tell Us Once’.

Prif Ddarganfyddiadau
Dengys canlyniadau profion yr archwiliad a’r dystiolaeth gefnogol bod gweithdrefnau priodol mewn lle gan Galw Gwynedd i reoli a monitro perfformiad swyddogion. Fodd bynnag, ymddengys bod trefniadau monitro gwyliau wedi bod yn bryder yn y gorffennol, yn enwedig oherwydd bod swyddogion y ganolfan yn cymryd gwyliau ar sail oriau (eu dyraniad blynyddol ar sail pro rata yn ddibynnol ar eu horiau gwaith cytundebol, sydd ei hun yn gallu newid yng nghanol blwyddyn gwyliau). Yn ogystal, gwelwyd nad oedd rheolwyr yn arwyddo'r cardiau gwyliau ar bob achlysur. Fodd bynnag, ni welwyd achos ble roedd gwyliau wedi eu cymryd ble nad oedd gan y swyddogion hawl i wneud hynny.

**Barn yr Archwiliad**
**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb rheoli perfformiad Galw Gwynedd gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn.**

# ASEDAU PRESWYLWYR CARTREFI
## Oedolion, Iechyd a Llesiant

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod preswylwyr yn cyfrannu tuag at gostau eu gofal yn unol â ymarfer da rheolau CRAG (Charging for Residential Accomodation Guide).

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o ffeiliau preswylwyr cartrefi preswyl a nyrsio gan archwilio'r asesiadau ariannol, trefniadau sefydlu cynllun taliadau gohiriedig a chofnodion cyfraniadau 3ydd barti.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw'r ffaith nad yw'r Cyngor yn cynnig cytundeb taliadau gohiriedig i breswylwyr wrth osod arwystl cyfreithiol ar eu heiddo. Er bod rhesymau yn bodoli dros beidio cyflawni hyn, mae'n bosib y gall unigolion herio defnydd y Cyngor o osod arwystl os nad yw'r seiliau cywir wedi eu bodloni.

Yn ogystal, gwelwyd nad yw trefniadau monitro taliadau a dyledion trydydd parti yn ddigonol. Er mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am dalu costau llawn preswylwyr i'r cartrefi preswyl, gan gynnwys cyfraniadau ychwanegol trydydd parti, gwelwyd bod y cyfraniadau ychwanegol yn cael eu talu'n uniongyrchol i'r cartref gan y trydydd parti heb fynd drwy lyfrau'r Cyngor. Mae hyn yn creu risg o ddyled gronni heb i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i bodolaeth.

O'r sampl a wiriwyd, gwelwyd nad oedd gan nifer o'r cynrychiolwyr bŵer atwrnai i weithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth pan nad oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau dros eu hunain. Os nad yw twrnai yn cyflwyno tystiolaeth ei fod wedi derbyn awdurdodiad gan y llys, yna ni ddylai'r Cyngor ei drin fel cynrychiolydd ariannol hyd y derbynnir tystiolaeth i law. Fodd bynnag, gwelwyd bod y Cyngor yn trafod materion ariannol gyda chynrychiolwyr sydd heb gael pŵer atwrnai dros y defnyddiwr gwasanaeth.

Wrth i unigolion gael mynediad at ofal preswyl, mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu'r gofal fel blaenoriaeth, ac yna drefnu bod yr unigolyn neu'r cynrychiolydd yn ad-dalu'r elfen mae'r Cyngor wedi'i asesu sy'n briodol iddynt gyfrannu. Mae amgylchiadau pob unigolyn yn wahanol, ac nid yw bob amser yn hawdd i'r Cyngor dderbyn y wybodaeth sydd ei angen i gynnal asesiadau ariannol, felly bydd elfen o risg o hyd yn bresennol i'r Cyngor. Yn sgil hyn, a'r symudiad tuag at Ffordd Gwynedd, archwiliwyd sampl o ffeiliau unigolion yng nghyd-destun amgylchiadau'r unigolyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb mewn gwiriadau ar "Asedau Preswylwyr Cartrefi" gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod canllawiau newydd i staff yn cael eu paratoi a'u cylchredeg mor fuan ag sydd bosib er mwyn sicrhau bod cyfeiriad clir i'r swyddogion o dan y strwythur newydd.**
- **Dylid derbyn prawf o incwm y preswylwyr ac yn dilyn gwirio cywirdeb y manylion, rhaid llofnodi y rhan berthnasol o'r E33 i gadarnhau hynny, yn enwedig os nad yw'r gweithiwr yn cadw copi o'r ddogfennaeth fel prawf o'r incwm.**
- **Dylai bod y ffurflenni priodol yn cael eu cwblhau a'u harwyddo'n briodol i sicrhau fod gan y Cyngor ganiatâd i gael mynediad at wybodaeth ariannol y preswylwyr.**
- **Dylid cadw copi o ddatganiadau banc y preswylwyr, neu arwyddo'r E33 i gadarnhau bod y datganiadau wedi eu gweld a'u gwirio, er mwyn cadarnhau gwerthoedd y cyfalaf a fynegwyd yn yr asesiad ariannol, ac i fodloni'r Adran nad yw'r preswylwyr wedi gwaredu ag arian gyda'r bwriad o leihau eu cyfalaf er mwyn osgoi cyfrannu at gostau'r gofal.**
- **Dylid parhau i annog defnyddwyr gwasanaeth i enwebu Power of Attorney tra bod y capasiti i wneud hynny ganddynt er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor yr hawl i drafod eu materion ariannol gyda chynrychiolydd petai angen.**

- **Wrth gytuno i ohirio elfen o gostau gofal, dylid sicrhau bod copi o arwystl cyfreithiol yn ffeil y preswylydd fel prawf bod arwystl wedi ei osod. Ble nad oes copi o'r arswystl ar ffeil, dylid cadarnhau gyda'r Gwasanaeth Cyfreithiol bod arwystl wedi ei osod.**
- **Dylai'r Cyngor gynnig cytundeb taliadau gohiriedig yn y lle cyntaf a/neu cadw tystiolaeth fod yr unigolyn yn gwrthod talu am y gofal cyn bod arwystl yn cael ei osod o dan HASSASSA.**

**CYDWEITHIO GYDA'R BWRDD IECHYD**
**Plant a Theuluoedd**

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod trefn gadarn rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y cytundeb Adran 33 sydd yn gysylltiedig â Thîm Derwen - Gwasanaeth Plant Anabl.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu'r trefniadau a'r gweithrediad sydd ynghlwm â'r cytundeb sy'n bodoli rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd enghreifftiau cryf o ymarfer da yn y cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd. Gwelir bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli yn y bartneriaeth a bod trefniadau cynllunio ac adrodd ar berfformiad yn ddigonol. Gwelwyd bod trefniadau moesegol cadarn hefyd yn bodoli yn y bartneriaeth. Fodd bynnag, gwelwyd bod rhai materion wedi codi ynglŷn â materion cyllid a hefyd ynglŷn â chofrestr risg ffurfiol a chynllun parhad gwasanaeth. Gwelir bod risg yn y meysydd hyn a byddai'n ymarfer da i ystyried y camau priodol er mwyn cryfhau'r trefniadau sydd eisoes mewn lle.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol a gweithredol yn y chydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen i nifer aelodaeth y Bwrdd gyd-fynd â'r hyn a nodir yn y cytundeb neu fel arall gytuno i addasu'r cytundeb i adlewyrchu'r newidiadau.**
- **Dylid sicrhau bod copi o'r ddogfen WASPI yn cael ei diweddaru / adolygu'n flynyddol.**
- **Dylid cael cofrestr risg swyddogol mewn lle er mwyn cadw cofnod o beth mae'r bartneriaeth yn bwriadu ei wneud i liniaru risgiau'r gwasanaeth. Dylid adolygu'r rhestr risg yn rheolaidd e.e. chwarterol.**
- **Dylid nodi'n glir cyfrifoldebau pwy sy'n gyfrifol am weithredu ar waith sydd ei angen i liniaru risgiau sy'n fygythiad i lwyddiant. Dylai'r gwaith hwn gael ei fonitro i sicrhau gweithrediad o fewn yr amser a nodwyd.**
- **Dylid cynhyrchu Cynllun Parhad Busnes yn ymdrin â phob senario posibl fel bod gan Gyngor Gwynedd y trefniadau i barhau'r gwasanaeth i'r darparwyr mewn unrhyw argyfwng.**
- **Yn unol ag atodiad 1 o'r cytundeb, dylid cyflwyno Adroddiad Ariannol ac Adroddiad Gweithgarwch i'r Bwrdd Rheoli'n chwarterol.**
- **Yn unol â chymal 9.3 o'r Cytundeb Adran 33, dylid ceisio sicrhau cytundeb ar gyllidebau drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol erbyn 1af o Ionawr.**
- **Yn unol â chymal 9.4 o'r Cytundeb Adran 33, dylid cadarnhau'r cyllidebau terfynol ac unrhyw newidiadau i weithdrefnau ariannol erbyn 28 o Chwefror fan bellaf.**
- **Dylid ystyried darparu datganiad ariannol i'r corff llywodraethol yn cadarnhau bod yr arian wedi ei ymdrin yn briodol.**
- **Dylid ystyried cael cynllun arbedion ffurfiol mewn lle ar gyfer cael eu monitro gan y Rheolwr Gwasanaeth.**
- **Dylid cysidro creu fframwaith rheoli perfformiad er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol ar y cyd.**
- **Dylid codi'r mater o ddatgan diddordeb ar ddechrau unrhyw gyfarfod / rhaglen y Bwrdd Rheoli a'i wneud yn fater safonol ar yr agenda.**

**GWASANAETHAU PLANT – COMISIYNU GOFAL**
**Plant a Theuluoedd**

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod trefniadau cadarn wrth gomisiynu gofal gan y Gwasanaethau Plant.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio bod trefniadau cytundebau, monitro ac ansawdd cadarn mewn lle ar gyfer comisiynu gofal gan y gwasanaeth ôl-16.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd rhai enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn i'r Gwasanaeth Adnoddau Gofal/Comisiynu - Tîm Ôl-16. Gwelwyd bod trefniadau da mewn derbyn ac asesu ceisiadau a bod y cytundebau / cytundeb lefel gwasanaeth yn ddigon manwl a phenodol. Gwelwyd bod fframwaith ar gyfer comisiynu gofal i blant ôl-16. Fodd bynnag, ymddengys nad oes llawer o ddarparwyr yn cynnig y gwasanaeth angenrheidiol yn lleol. Gwelwyd nad oedd monitro cadarn ar ddarparwyr y gwasanaeth a bod yr elfen gyllid angen ei monitro yn rheolaidd. Yn anffodus, ni dderbyniwyd rhai dogfennau ar gyfer rhai o'r profion gan y Gwasanaeth yn dilyn nifer o ymdrechion a cheisiadau am y dystiolaeth. Dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn maes yr archwiliad.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Comisiynu Gofal – Gwasanaethau Plant gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod cytundebau / "Individual Placement Agreement" yn bodoli rhwng y defnyddiwr gwasanaeth a'r Cyngor / darparwyr**.
- **Byddai'n ymarfer da petai'r Uned Gyfreithiol yn cymeradwyo'r cytundebau yn y dyfodol**.
- **Mae angen sicrhau bod cytundebau yn bodoli rhwng y Cyngor a phob darparwr, sydd wedi ei arwyddo gan berson dilys o'r darparwyr a gan swyddog awdurdodedig o'r Cyngor.**
- **Yn unol â'r cytundeb fframwaith (Cymal 7,17 a 20) mae'n angenrheidiol i'r darparwr a'r Cyngor gytuno ar brisiau'n flynyddol ac i fod yn berthnasol o'r 1af o Ebrill o'r flwyddyn ariannol ganlynol. Mae'r prisiau a gytunwyd i'w nodi yn glir ar y Cytundebau Lleoliadau Unigol ar bob achlysur.**
- **Dylid monitro a gwirio anfonebau a chwestiynu unrhyw bris sydd yn wahanol i'r hyn â gytunwyd, a dylid ei nodi yn y Cytundebau Lleoliadau Unigol.**
- **Dylid gwneud cais i'r darparwr am fwy o fanylion ar yr anfonebau, gan gynnwys enw'r cwmni, rhif a dyddiad yr anfoneb a disgrifiad clir o'r gwasanaeth a ddarpwyd.**
- **Dylid cael trefniadau clir mewn lle ar gyfer dyletswyddau a chyfrifoldebau swyddogion ar gyfer y gwasanaeth ôl-16.**
- **Mae angen sicrhau bod cyfarfodydd cyson yn cymryd lle rhwng swyddogion y Cyngor a'r contractwyr / defnyddwyr gwasanaeth a bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cofnodi. Mae'r cofnodion angen nodi yn glir cynnydd ac ansawdd y gwasanaeth. Os oes diffyg yn cael ei amlygu yna dylai cynllun gweithredu gael ei gytuno.**
- **Dylid sicrhau bod unrhyw drafodaethau a phenderfyniadau wrth adolygu'r math o wasanaeth sy'n cael ei gynnal yn cael eu dogfennu e.e. cofnodion cyfarfodydd tîm.**

**GORFODAETH PARCIO**
**Trafnidiaeth a Gofal Stryd**

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaethau mewnol mewn lle ar gyfer cydymffurfio â gweithdrefnau a threfniadau gorfodaeth parcio.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu trefniadau'r uned wrth edrych ar ddyletswyddau'r gweithwyr, gweithio'n unig, cytundebau a pholisïau'r bartneriaeth ac incwm y dirwyon parcio sy'n cael eu prosesu gan Gyngor Sir Ddinbych ar ran Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelir fod y Bartneriaeth yn gweithredu'n llwyddiannus, a bod y Cyngor yn cael budd o fod yn rhan ohoni oherwydd bod arweiniad cadarn a chlir yn bodoli. Er llwyddiannau'r Bartneriaeth, teimlir y dylai'r uned fod â gweithdrefnau eu hunain wrth gefn rhag i ddigwyddiadau anrhagweledig orfodi i'r Bartneriaeth ddod i ben. Gwelir fod cydberthynas dda rhwng aelodau o'r tîm gorfodaeth parcio, a bod cyfathrebu cyson yn digwydd rhwng y Rheolwyr â'r staff rheng flaen. Teimlir bod yna le i ffurfioli'r cyfathrebu, drwy gynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd. Gwelir fod y staff yn gymwys i weithredu'n effeithiol yn eu rôl fel Swyddogion Gorfodaeth Sifil, ac mae trefniadau wedi eu sefydlu i'w diogelu wrth weithio o dan amodau ble mae risg uchel i'w iechyd a diogelwch. Ymddengys bod cefnogaeth gref iddynt gan y Rheolwyr. Mae'r modd yr adroddir ar y sefyllfa ariannol yn peri peth gofid, gan fod gwybodaeth anghywir ynglŷn â gwariant a'r gyllideb wedi ei anfon i'r Rheolwyr. Teimlir hefyd bod yr adroddiadau'n eithrio rhai manylion a allai fod o fudd i'r Rheolwyr.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweithdrefnau Gorfodaeth Parcio gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Fel ymarfer da, dylid ystyried trefnu bod unrhyw ddiweddariad i'r cytundeb yn cael ei gymeradwyo gan yr uned Gyfreithiol er mwyn gwarchod hawliau'r Cyngor pe bai unrhyw beth yn mynd o'i le.**
- **Dylid ystyried mabwysiadu gweithdrefnau ar reolau gorfodaeth parcio yn seiliedig ar y ddogfen "Civil Parking Enforcement Procedures", a bod y rhain yn cael eu dosbarthu i'r swyddogion perthnasol.**
- **Fel ymarfer da, dylid cael polisi ar gyfer cadw cofnodion, megis llyfrynnau'r swyddogion a recordiadau'r camerâu, a'i gyfathrebu gyda'r Uned Wybodaeth.**
- **Cynnal cyfarfodydd tîm yn chwarterol, er mwyn rhoi cyfle i'r tîm gwrdd yn ei gyfanrwydd a chael eu diweddaru yn ffurfiol ar faterion sy'n codi.**
- **Sicrhau bod ffigyrau'r adroddiadau misol yn cysoni i'r cyfriflyfr, ac ystyried cynnwys mwy o fanylder yn yr adroddiadau.**
- **Ystyried sefydlu cofrestr risg ar gyfer yr uned, er mwyn adnabod y risgiau uniongyrchol i'r uned gan gynnwys risgiau busnes / ariannol.**
- **Sicrhau fod y Swyddogion wedi darllen yr asesiadau risg a chael cyfle i fynegi eu sylwadau pan fydd unrhyw ddiweddariad yn yr asesiadau, a bod hynny'n cael ei gofnodi'n ysgrifenedig.**
- **Sicrhau bod y staff yn arwyddo eu bod yn cytuno i'r amodau gweithio'n unig bob tro bydd diweddariad yn yr amodau.**
- **Ystyried gwneud trefniadau gyda'r cwmni ar gyfer cynnal a chadw'r camerâu, a fyddai o bosib yn lleihau costau i'r Cyngor petai'r rhywbeth yn mynd o'i le gyda'r dyfeisiau.**
- **Ystyried ymgorffori codau PACE yn y trefniadau ar gyfer y camerâu, er mwyn gwarchod y Cyngor petai angen mynd ag achos at yr heddlu.**